

Digwyddiadau WatsON – Polisi Ad-dalu Triathlon y Bala

Fel arfer mae'r gwaith o drefnu digwyddiad yn dechrau 12 mis cyn dyddiad y ras, a chostau'n cael eu hachosi o'r diwrnod cyntaf un. Yn y gorffennol fel athletwyr, rydym i gyd wedi colli arian wrth gofrestru ar gyfer ras ac yna, am wahanol resymau, yn methu â chystadlu a chael gwybod na chawn ein harian yn ôl. Fel trefnwyr rasys mae angen cael pobl i gofrestru'n gynnar er mwyn helpu i dalu ein costau cychwynnol. Gyda hyn mewn golwg ac i annog pobl i gofrestru'n gynnar, rydym wedi llunio'r polisi ad-dalu canlynol – **dim ond i ni dderbyn e-bost gennyh yn cadarnhau eich bod yn tynnu'n ôl o'r digwyddiad ac yn rhoi eich cyfeiriad post a'ch manylion banc presennol, erbyn y dyddiadau isod.**

E-bost at: george@wats-on-events.com

Ar ôl y dyddiadau hyn bydd yr arian wedi cael ei wario a bydd yn rhaid i ni ddweud "Sori, dim ad-daliad".

Credwn mai ni yw un o'r ychydig sefydliadau sy'n ceisio gwneud hyn – yn y pen draw, mae eich cais yn gytundeb sy'n eich rhwymo i gystadlu a thalu beth bynnag yw'r amgylchiadau.

MEINI PRAWF AD-DALU

Bydd e-bost yn tynnu'ch cais yn ôl, wedi'i dderbyn gan drefnydd y ras ar, neu cyn, y dyddiadau isod yn rhoi hawl ichi dderbyn yr ad-daliad canlynol:

BALA CANOL 1 Mai 2017 – Ad-daliad £70.00

BALA SAFONOL 1 Awst 2017 – Ad-daliad £50.00

Ar ôl y dyddiadau hyn bydd yr arian wedi cael ei wario a bydd yn rhaid i ni ddweud "**Sori, dim ad-daliad**".

Yn achos ad-daliad lle'r ydych wedi talu ffi gofrestru disgownt / cofrestru'n gynnar, byddwn yn gwneud ad-daliad hyd at y dyddiadau uchod, llai unrhyw ffi weinyddol.

Ar yr amod nad yw'r gwariant yn fwy na'r incwm, mae gan y trefnydd hawl i dynnu'r polisi ad-dalu hwn yn ôl er mwyn gwarantu sicrwydd ariannol y digwyddiad.

Ni fyddwn yn derbyn neges ffôn i gadarnhau eich bod yn tynnu'n ôl, ond gallwch ffonio i gadarnhau ein bod wedi derbyn yr e-bost tynnu'n ôl.

NI ALLWN OHIRIO EICH CAIS TAN Y FLWYDDYN WEDYN O DAN UNRHYW AMGYLCHIADAU

Ni chaniateir gohirio cais oherwydd gall hyn effeithio ar sefyllfa ariannol ras y flwyddyn wedyn.